Health and Care Research Wales Evidence Centre

Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Rhaglen Waith

## Haf 2023

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# RHAGLEN WAITH SYNTHESIS TYSTIOLAETH GARLAM

| Cwestiwn ymchwil / tystiolaeth sydd ei hangen | | Sut bydd y dystiolaeth yn cael ei defnyddio | Grŵp/Grwpiau Rhanddeiliaid sy'n cyflwyno'r dystiolaeth sydd ei hangen |
|---|---|---|---|
| 0005 | Beth yw nifer yr achosion a ragwelir o gyflyrau hirdymor yng Nghymru? | Llywio papur Llywodraeth Cymru ar sut fydd y GIG yn edrych ymhen 10 mlynedd i gynllunio darpariaeth gwasanaeth. | Tîm Cyngor Tystiolaeth Gwyddoniaeth (LlC) |
| 0008 | Beth yw effeithiolrwydd deallusrwydd artiffisial mewn diagnosteg radiolegol? | Llywio rhaglen a strategaeth ddiagnostig genedlaethol. | Cyfarwyddiaeth y Gwyddorau Iechyd (Polisi) |
| 0009 | Pa ymyriadau a datblygiadau arloesol allai leihau'r nifer o bobl sy'n gadael y gweithlu ac o bosibl ddod â phobl yn ôl i'r gwaith? | Llywio cyllideb nesaf Llywodraeth Cymru a'r adolygiad o wariant. | Economeg Iechyd (Polisi) |
| 0010 | Beth yw'r bwlch diogel rhwng gyfer apwyntiadau adolygu optometreg? | Angen tystiolaeth i lywio strategaeth ddiwygiedig ar gyfer cyfnodau galw yn ôl mewn optometreg. | Gwasanaethau Optometreg ac Awdioleg (Polisi) |
| 0011 | Diweddariad o'r crynodeb o ymchwil gweithredol a darpar ymchwil covid-hir yng Nghymru. | Adnodd ar gael i gleifion â chovid hir. | Arweinwyr Covid Hir (GIG) |
| 0018 | Beth yw'r prif risgiau iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig arfaethedig (e.e. tatŵio, aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis)? | Potensial i lywio/diweddaru Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017, Rhan 4: Gweithdrefnau Arbennig. | Gweithdrefnau Arbennig (Polisi) |
| 0019 | Beth yw effeithiolrwydd ymyraethau / arloesiadau i ddenu, recriwtio a chadw'r ymwelydd iechyd / gweithlu blynyddoedd cynnar? | Llywio'r bwriad i ehangu Rhaglen Iechyd Dechrau'n Deg yng Nghymru. | Prif Swyddfa Nyrsio (Polisi) |
| 0020 | Adolygiad Gofal Lliniarol — Economeg iechyd a Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth. | Llywio'r adroddiad 'cam 3' i Lywodraeth Cymru ynghylch modelau strwythurau a chyllid, a'r rhaglen waith ehangach. | Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes (GIG) |
| I'w gadarnhau | Beth yw effeithiolrwydd (gan gynnwys costau) ymyriadau i oedolion hŷn er mwyn mynd i'r afael ag allgáu digidol wrth fanteisio ar wasanaethau gofal cymdeithasol? | Wedi'i nodi drwy ymarfer blaenoriaethu JLA. Cysylltu â phrosiect SCW ar arloesi digidol. Yn cefnogi agenda Cymunedau Digidol Cymru Llywodraeth Cymru. | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| I'w gadarnhau | Beth yw effeithiau llygredd aer a/neu sŵn ar iechyd? | Bydd tystiolaeth yn cael ei hintegreiddio yn y Bil Aer Glân. | Newid yn yr Hinsawdd ac Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol (Polisi) |
| I'w gadarnhau | Beth sy'n gweithio i gefnogi gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl (o ofal sylfaenol i gleifion mewnol) ar gyfer grwpiau lleiafrifol er mwyn lleihau anghydraddoldebau? | Llywio dwy strategaeth sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd:<br>- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl<br>- Beth am Siarad â Fi? | Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed (Polisi) |
| I'w gadarnhau | Pa ymyriadau gwrth-ysmygu sy'n effeithiol ar gyfer y gwahanol grwpiau poblogaeth hyn? | Llywio cynllun cyflawni ar gyfer 2024-2026. Anelu at gyfradd mynychder ysmygu o 5% erbyn 2030. | Gwella Iechyd y Cyhoedd ac Anghydraddoldebau (Polisi) |

# RHAGLEN WAITH YMCHWIL SYLFAENOL

| Cwestiwn ymchwil / tystiolaeth sydd ei hangen | | Sut bydd y dystiolaeth yn cael ei defnyddio | Grŵp/Grwpiau Rhanddeiliaid sy'n cyflwyno'r dystiolaeth sydd ei hangen |
|---|---|---|---|
| **ASTUDIAETHAU GWYDDOR DATA POBLOGAETH** | | | |
| 0014 | Beth yw effaith cost gofal lliniarol ar wasanaethau gofal iechyd brys a heb ei drefnu yng Nghymru? | Llywio'r adroddiad 'cam 3' i Lywodraeth Cymru ynghylch modelau strwythurau a chyllid, a'r rhaglen waith ehangach. | Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes (GIG) |
| 0015 | Beth yw effaith cost cleifion â phoen cronig ar wasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru? | Llywio strategaeth genedlaethol a darpariaeth gwasanaethau. | Arweinwyr Poen Cronig (GIG) |
| **ASTUDIAETHAU YMCHWIL SYLFAENOL MEWNOL** | | | |
| 0016 | Anghenion a dewisiadau cleifion ar gyfer gofal deintyddol brys y GIG: sut allai gofal deintyddol brys edrych? (Gwaith ansoddol) | Llywio Strategaethau Diwygio Deintyddol parhaus. | Deintyddol (Polisi) |
| 0017 | Beth os o gwbl, yw manteision/anfanteision newidiadau i'r cyflenwad cynnyrch heb glwten sy'n cael eu dirnad gan gleifion â chlefyd seliag yng Nghymru? (Gwaith ansoddol gyda gwerthusiad economaidd posibl) | Llywio argymhellion mewn adolygiad o'r Strategaeth Cyfeintiau Dosbarthu mewn Fferylliaeth Gymunedol. | Fferyllol (Polisi) |
| **CYNGOR AR WERTHUSO GWASANAETHAU** | | | |
| 0012 | Cyngor ar werthuso modelau gofal Proffesiynau Perthynol i Iechyd (AHP) sydd newydd eu hariannu mewn gofal sylfaenol drwy Ddatblygu Clwstwr Carlam. | Llywio strategaeth / darpariaeth gwasanaethau parhaus yn y maes hwn. | Proffesiynau Perthynol i Iechyd (GIG) |
| 0013 | Cyngor ar werthuso gwasanaeth 'Adferiad' Covid Hir (gan gynnwys cleifion â symptomau meddygol anesboniadwy). | Llywio strategaeth / darpariaeth gwasanaethau parhaus yn y maes hwn. | Covid hir, strôc, adsefydlu, cyflyrau niwrolegol, eiddilwch (Polisi) a Gofal Sylfaenol (GIG) |
| I'w gadarnhau | Beth yw effeithiolrwydd canolfannau diagnostig? | Llywio strategaeth / darpariaeth gwasanaethau parhaus yn y maes hwn. | Cyfarwyddiaeth y Gwyddorau Iechyd (Polisi) |

Sylwer - hon yw Rhaglen Waith arfaethedig Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar y dyddiad cyhoeddi (isod).
Os bydd anghenion tystiolaeth polisi / ymarfer a nodwyd yn ystod ein hymarfer blaenoriaethu ymchwil (Ionawr — Mai 2023) yn newid, gellir diwygio ein Rhaglen Waith (gellir addasu neu ddileu prosiectau presennol, a gellir ychwanegu cwestiynau blaenoriaeth uchel a chwestiynau brys).

Mae rhagor o fanylion am ein Rhaglen Waith Synthesis Tystiolaeth Garlam a'n Rhaglen Waith Ymchwil Sylfaenol ar gael ar ein gwefan: Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru | Health Care Research Wales (researchwalesevidencecentre.co.uk)

# Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Mae ein timau ymroddedig yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd, gofal cymdeithasol, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd i ddarparu ymchwil hanfodol i fynd i'r afael â heriau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n wynebu Cymru.

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn ateb cwestiynau allweddol i wella polisi a darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Ynghyd â'n partneriaid cyd-weithio, rydym ni'n cynnal adolygiadau o dystiolaeth bresennol ac ymchwil newydd, i lywio anghenion polisi ac ymarfer, gan ganolbwyntio ar sicrhau budd y byd go iawn a budd cyhoeddus sy'n cyrraedd pawb.

**Cyfarwyddwr**: Yr Athro Adrian Edwards

**Cyfarwyddwyr Cyswllt**: Dr Alison Cooper, Dr Natalie Joseph-Williams, Dr Ruth Lewis


@tystiolaethcym

healthandcareevidence@cardiff.ac.uk

researchwalesevidencecentre.co.uk/cy